

Meddygfa'r Llan

TAFLEN WYBODAETH Y CLAF RHANNU EICH GWYBODAETH

Lle bynnag y bo eich gwybodaeth bersonol yn cael ei gadw, boed ar bapur neu gyfrifiadur, mae'n cael ei gadw yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a Mynediad i Gofnodion. Mae defnydd eich gwybodaeth yn cael ei reoli gan reolau cyfraith lem i ddiogelu eich preifatrwydd. Mae pob aelod staff yn cael eu rhwymo'n gyfreithiol gan yr un rheolau cyfrinachedd yn union fel meddygon a nyrsys. I gefnogi eich triniaeth a'ch gofal, mae gwybodaeth amdanoch yn cael ei rannu gydag eraill (ar sail yr angen i wybod) er enghraifft:

- I ddarparu triniaeth feddygol bellach e.e. ysbytai, meddygon teulu â diddordeb arbennig, nyrsys cymunedol, gweithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill
- cael mynediad at wasanaethau ychwanegol e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol
- Rhoi gwybod i eraill lle mae gennym rwymedigaeth gyfreithiol i wneud hynny e.e. materion amddiffyn plant

Gyda'r datblygiadau technoleg gwybodaeth, bydd y GIG yn gynyddol yn rhannu gwybodaeth allweddol gyda Meddygfeydd eraill, Y Gwasanaethau 'Tu Allan i Oriau', Unedau A&E, Ysbytai Cymunedol, Nyrsys Cymunedol, Bydwragedd, ac efallai bydd pob un ohonynt yn gofalu amdanoch ar ryw adeg yn eich bywyd.

Gall rhannu gwybodaeth wella ansawdd y gofal a gewch a'i wneud yn fwy diogel. Mewn rhai achosion mae'n hanfodol er mwyn gwneud penderfyniadau i achub eich bywyd.

Gofynnwn i chi ddarllen y wybodaeth yn y ddogfen hon yn ofalus. Os ydych yn fodlon â threfniadau rhannu data'r GIG nid oes angen i chi wneud unrhyw beth. Fodd bynnag, os ydych yn dymuno optio allan o un neu fwy o agweddau, cwblhewch y ffurflen amgaeedig a'i dychwelyd atom.

Mae dau ddull gwahanol o rannu gwybodaeth am gleifion yn y GIG ar hyn o bryd:

- **Cofnod Meddygon Teulu Cymru**
- ***Vision 360***

Mae'r rhain yn galluogi parhad a diogelwch yn eich gofal personol.

Sylwch fod y ddau yn gwbl ar wahân. Wrth eithrio o un ni fyddwch yn eithrio yn awtomatig o'r llall.

Cofnod Meddygon Teulu Cymru

Mae Cofnod Meddygon Teulu Cymru yn cynnwys crynodeb o wybodaeth bwysig o'ch cofnod meddygol meddyg teulu llawn:

- Eich enw, eich cyfeiriad a'ch manylion cyswllt
- Meddyginiaeth bresennol ac yn y ddwy flynedd ddiwethaf
- Alergeddau neu unrhyw adweithiau anffafriol
- Problemau cyfredol neu ddiagnosis
- Canlyniadau unrhyw brofion yn y flwyddyn flaenorol, e.e. profion gwaed a phelydrau-x

Nid yw'n cynnwys unrhyw drafodaethau preifat â'ch meddyg teulu.

Bwriedir iddo fod ar gael i glinigwyr mewn adrannau A&E a'r gwasanaeth 'Y Tu Allan i Oriau' er mwyn darparu triniaeth ddiogel ac effeithiol i chi.

Mae gennych ddewis ynghylch rhannu eich gwybodaeth yn y ffordd hon; os nad ydych yn dymuno i'r wybodaeth amdanoch gael ei rhannu rhowch wybod i ni.

Dim ond os oes ganddynt awdurdod i wneud hynny gall Weithwyr Iechyd Proffesiynol gael mynediad i'ch Cofnod Meddygon Teulu Cymru. Mae rheolau llym ar waith i gadw eich gwybodaeth yn ddiogel.

Dim ond y bobl sy'n gofalu amdanoch sy'n gallu edrych ar eich Cofnod Meddygon Teulu Cymru a rhaid iddynt ofyn am eich caniatâd yn gyntaf. Bob tro bydd rhywun yn edrych ar eich gwybodaeth byddwn yn cofnodi hynny, a byddwn yn ymdrechu i sicrhau nad oes unrhyw un yn edrych ar eich cofnod heb awdurdod.

Os ydych yn anymwybodol, gall staff y GIG yng Nghymru edrych ar eich Cofnod Meddygon Teulu Cymru heb eich caniatâd. Mae hyn er mwyn iddynt roi'r gofal gorau posibl i chi. Mae unrhyw benderfyniad i edrych ar eich Cofnod Meddygon

Teulu Cymru pan nad ydych yn gallu rhoi eich caniatâd yn cael ei gofnodi gydag eglurhad o pam gwnaed y penderfyniad.

Vision 360

Yr enw ar y gronfa ddata cyfrifiadurol rydym yn ei ddefnyddio i storio eich cofnod iechyd electronig yng Ngogledd Ceredigion yw "Vision". Mae'n system glinigol ddiogel a ddefnyddir gan lawer o bractisau meddygon teulu ar draws y DU.

Mae saith Practis Meddyg Teulu yng Ngogledd Ceredigion wedi ffurfio 'Gofal Sylfaenol Cambrian' i gefnogi gweithio ar y cyd.

- Meddygfa Borth
- Meddygfa'r Llan
- Canolfan Iechyd Llanilar
- Meddygfa Padarn
- Meddygfa Tanyfron
- Meddygfa Tregaron
- Grŵp Meddygol Ystwyth

O 12 Mehefin byddant hefyd yn defnyddio system o'r enw Vision 360 i ganiatáu mynediad i'ch cofnod clinigol gan weithwyr iechyd ar draws Gogledd y Sir yn y man a'r lle. Bydd staff eich meddygfa chi hefyd yn gallu gwneud apwyntiad i weld gweithiwr iechyd sy'n gweithio mewn meddygfeydd arall. Mae cofnod o'r driniaeth a gafwyd ar gael ar eich cofnod clinigol yn eich meddygfa eich hun i'r staff clinigol gael ei weld.

Mae caniatáu i'ch meddyg teulu i rannu eich cofnod trwy Vision 360 yn helpu'r rhai sy'n ymwneud â'ch gofal iechyd i ddarparu gofal gwell a mwy diogel i chi.

Gall cleifion ddewis gwrthod rhannu eu cofnod electronig. Os nad ydych yn dymuno i'r wybodaeth amdanoch gael ei rannu rhowch wybod er mwyn cwblhau ffurflen optio allan.